# PWYLLGOR IAITH, 27.02.18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Judith Humphreys, Charles W. Jones, Kevin Morris Jones, a Eirwyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Y Gymraeg) a Dylan Bryn Roberts (Rheolwr Canolfan Popdy, Hunaniaith).

**Cefnogaeth Gorfforaethol:** Janet Roberts (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gwenllian Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Adran Addysg:** Debbie Anne Jones (Swyddog Addysg Ardal) a Carys Lake (Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Eric Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd materion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2017 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd adroddiad llafar Aelod Cabinet y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Penodiad Eluned Morgan fel y Gweinidog newydd gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg – mae bwriad i'w gwahodd yn swyddogol i Wynedd i ddangos y gwaith sydd yn mynd ymlaen yma.
- Dim wedi derbyn diweddariad o beth fydd yn digwydd ynglŷn â Bil y Gymraeg.
- Y gwaith ymgynghori ar Gynllun y Cyngor, fydd yn mynd ger bron y Cyngor Llawn ar y 1 Mawrth 2017, ynghyd â'r Cynllun Llesiant lle mae'r Gymraeg wedi ei gynnwys fel un o'r blaenoriaethau.
- Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg ar ei gwaith o lunio'r Strategaeth Iaith a fydd yn mynd allan am ymgynghoriad ym mis Mawrth.
- Wedi cyfarfod gyda Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Gymraeg yn y Llywodraeth, a bydd cyfarfodydd rheolaidd yn ei gynnal i drafod materion sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn lleol e.e. Datblygiadau Technoleg Iaith.

DRAFT

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**6. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD**

Cyflwynwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn diweddaru'r pwyllgor ar gynnwys Strategaeth Iaith Gwynedd. Eglurwyd fod yr amserlen wreiddiol i ymgynghori ar y strategaeth wedi llithro er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth yn adlewyrchu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant. Nodwyd bod y Strategaeth Iaith ddrafft bellach wedi ei gwblhau a bydd yn mynd gerbron y Cabinet ar y 13 Mawrth 2018 i ofyn am gymeradwyaeth i ddechrau'r cyfnod ymgynghori. Mae bwriad i gyflwyno'r strategaeth i'r Pwyllgor Iaith ym mis Ebrill er mwyn ymgynghori gyda'r pwyllgor yn ffurfiol.

Tywyswyd yr aelodau'r drwy gynnwys y Strategaeth Iaith ddrafft. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- Croesawu cynnwys yr adroddiad a mynegwyd gwerthfawrogiad i'r adran am eu gwaith.
- Pwysigrwydd cyfoethogi cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith fel iaith naturiol, cymunedol sydd yn cael ei defnyddio pob dydd; er na fydd hyn yn cynyddu'r nifer sy'n siarad y Gymraeg, bydd hyn cryfhau'r iaith ac yn ei sicrhau ar gyfer y dyfodol.
- Beth yw gwerth strategaeth yn erbyn gwerth polisi?
- Trefniadau monitro cynnydd y blaenoriaethau – pwysig bod y Pwyllgor Iaith efo rhan allweddol yn y broses yma.
- Angen adnabod manylder meysydd gwaith ein partneriaid i sicrhau bod gwaith ddim yn cael ei ddyblygu.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y strategaeth.

**7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD**

Cyflwynwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd gan y Swyddog Addysg Ardal Ysgolion a Chydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Nodwyd fod y strategaeth yn ymateb i'r galw i sicrhau dilyniant i'r Siarter Iaith sydd eisoes wedi bod yn weithredol yn yr ysgolion cynradd. Adroddwyd bod y strategaeth, fel dogfen ddrafft, wedi bod gerbron y Grŵp Cynllunio Strategaeth Uwchradd, y Pwyllgor Iaith, a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am ymgynghoriad, ac wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ar y 26 Hydref 2017.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r strategaeth. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- A oes modd monitro'r nifer o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion megis Tywyn.
- Yr angen i fynd i'r afael â'r dirywiad parhaol yng nghanlyniadau disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. A oes modd ymgorffori'r anghenion yma yn narpariaeth GwE?
- Ymateb i'r strategaeth gan bennaeth newydd CBAC.
- Yr angen i godi niferoedd yr athrawon sy'n dysgu yn y Gymraeg iaith gyntaf i osod y deunydd craidd i ddysgu pob pwnc yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod gwirfoddolwyr/hyfforddwyr sy'n dysgu plant ar ôl ysgol yn defnyddio'r Gymraeg.
- Angen i'r strategaeth ymledu i bob cwr o'r Cyngor.
- Pwysig bod y Colegau hefyd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnwys yr adroddiad a'r camau nesaf.

## 8. CYFLWYNIAD I WAITH HUNANIAITH

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor gan Reolwr Canolfan Popdy ym Mangor ar waith Hunaniaith sef Menter Iaith Gwynedd. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:-

- A yw gwaith Hunaniaith yn dyblygu gwaith y llyfrgelloedd?
- Pwysigrwydd derbyn yr iaith sut bynnag y mae hi'n cael ei siarad.
- Yr angen i annog mwy o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 9. CWYNION

Nid oedd unrhyw gwynion yw nodi.

## 10. MATERION ERAILL YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

DRAFT